## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 1 Mai 2002 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 4.45 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADOLYGIAD O FIOAMRYWIAETH: CYLCH GORCHWYL

### Pwrpas

1. Ystyried cylch gorchwyl a rhaglen ddrafft ar gyfer yr adolygiad arfaethedig o fioamrywiaeth.

### Cefndir

2. Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor ar 9 Ionawr cyflwynodd Grp Bioamrywiaeth Cymru adroddiad yn pwysleisio arwyddocâd canfyddiadau Adroddiad Bioamrywiaeth y Mileniwm o safbwynt Cymru, ac yn nodi'r camau y dylid eu cymryd i hyrwyddo bioamrywiaeth yng Nghymru. Tynnwyd sylw gan Aelodau at bwysigrwydd camau lleol ar draws Cymru i hyrwyddo bioamrywiaeth. Nododd y Pwyllgor ei fwriad i wneud rhagor o waith ar fioamrywiaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac i geisio ategu gwaith Grp Bioamrywiaeth Cymru.

3. Yn y cyfarfod diwethaf, cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd ag adolygiad o fioamrywiaeth. Bydd angen i'r adolygiad fod yn un byr â ffocws iddo, fel y gellir ei gwblhau cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003.

### Grp Bioamrywiaeth Cymru

4. Mae Grp Bioamrywiaeth Cymru yn dwyn ynghyd gyfranwyr allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i hyrwyddo, arolygu a chynghori'r Cynulliad ar gamau i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Sefydlwyd y Grp ym 1996, ochr yn ochr a grwpiau cyffelyb ar gyfer rhannau eraill o'r DU yn dilyn argymhellion

Grp Llywio Bioamrywiaeth y DU.

### Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAPs)

4. Cynhyrchir LBAPs gan bartneriaethau lleol o fudiadau sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Eu bwriad yw hyrwyddo camau cadwraeth ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yn y DU y nodwyd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt, a bioamrywiaeth pwysig lleol, a dynodi adnoddau ar gyfer y camau

hynny. Mae LBAPs yn cynnwys camau sy’n adlewyrchu gwerthoedd pobl leol, a nodweddion arbennig lleol, ond ar yr un pryd yn darparu dull o gyflawni targedau cadwraeth cenedlaethol.

5. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad i wella bioamrywiaeth drwy gefnogi datblygu cynlluniau gweithredu lleol. Mae Dangosydd Perfformiad newydd y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2002-03 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAPs) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu LBAP fel cyfarwyddyd cynllunio ychwanegol. Ym mis Mawrth adroddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod deg awdurdod lleol wedi cytuno ar LBAPs, a bod wyth pellach yn datblygu cynlluniau.

**Cylch gorchwyl**

6. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y cylch gorchwyl drafft canlynol:

> *Ystyried y cynnydd tuag at y garreg filltir o gael Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAPs) wedi’u sefydlu ym mhob ardal yng Nghymru, a nodi’r camau pellach sydd eu hangen ar lefelau cenedlaethol a lleol i gefnogi gweithredu LBAP trwy bartneriaethau.*

**Rhaglen**

7. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y rhaglen ddrafft sydd yn yr **Atodiad**. Rhestrir y prif weithgareddau isod.

*Y tymor yma*

- cytuno ar gwmpas yr adolygiad (heddiw);
- ystyried y cefndir cyfreithiol a’r cefndir polisi, a rôl y Cynulliad a’i bartneriaid;
- cytuno ar gwestiynau ymgynghori a rhestr o ymgynghorwyr;
- ymgynghori ar y cynnydd a wneir o ran datblygu a gweithredu LBAPs a materion allweddol (yn ystod toriad yr haf).

*Tymor yr hydref*

- clywed tystiolaeth gan grwpiau lleol a chenedlaethol;
- cynnal ymweliad i ganfod ffeithiau;
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch camau lleol trwy gyfarfod mewn gwahanol rannau o Gymru a/neu fynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau Rhanbarth;
- dadansoddi’r materion allweddol;
- cytuno ar argymhellion drafft.

*Tymor y gwanwyn*

- cytuno ar yr adroddiad a’r argymhellion terfynol;
- adrodd i’r cyfarfod llawn.

**Argymhelliad**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y cylch gorchwyl a’r rhaglen ar gyfer yr adolygiad.

---------------------------------------

Troednodiadau

1. Llywodreth Cynulliad Cymru, Cynllun i Gymru 2001, Hydref 2001, ISBN 0 7504 2773 6
2. Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002 Rhif. 757 (Cy.80)
3. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, Mawrth 2002, ISBN 0 7504 2854 6
4. Cymdithas Llywodraeth Leol Cymru, Tuag at Gymunedau Cynaliadwy - Gwerthusiad o weithredu awdurdodau lleol I hyrwyddo datblygu cynaliadwy, Mawrth 2002, ISBN 1 901719 25 1

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Mai 2002

**ATODIAD**

**RHAGLEN DDRAFFT**

**Tymor yr haf 2002**

| | |
|---|---|
| 1 Mai | Cytuno ar gylch gorchwyl |

| | |
|---|---|
| 19 Mehefin | Ystyried y cefndir cyfreithiol a'r cefndir polisi, rôl y Cynulliad a'i bartneriaid<br><br>Cytuno ar feysydd ymgynghori a rhestr o ymgynghorwyr |
| Toriad yr haf | Ymgynghori ynghylch cynnydd a materion allweddol (12 wythnos 1/7 – 20/9) |

**Tymor yr hydref 2002**

| | |
|---|---|
| Cyfarfod 1af | Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad |
| 2il gyfarfod [oddi ar y safle] | Sesiwn tystiolaeth (grwpiau lleol) |
| [Ymweliad anffurfiol | 'Ymweliad canfod ffeithiau' i safle lleol |
| 3ydd cyfarfod | Sesiwn tystiolaeth (cyrff cenedlaethol) |
| [Pwyllgorau Rhanbarth | Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus/trafod materion] |
| 4ydd cyfarfod | Dadansoddi'r materion allweddol |
| 5ed cyfarfod | Cytuno ar argymhellion drafft |

**Tymor y gwanwyn 2003**

| | |
|---|---|
| Cyfarfod 1af | |
| 2il gyfarfod | Cytuno ar destun yr adroddiad terfynol |
| 3ydd cyfarfod | |
| [I’w gadarnhau – diwedd Chwefror?] | Cyflwyno’r adroddiad a’r argymhellion i’r cyfarfod llawn |
| + 4 wythnos | Argraffu a chyhoeddi’r adroddiad |